ADFENT 4

2 SAMUEL 7:1-11, 16; SALM 89:1-4, 19-26;
LUC 1:46-55; RHUFEINIAID 16:25-27; LUC 1:26-38

● **Gweddi agoriadol**
Drwy ein haddoli heddiw,
tyn ni yn nes o hyd,
ar ein taith Adfent,
at stabl Bethlehem,
a disgwyl
a dathlu.

● **Moliant**
Canwn am byth am dy gariad,
a chyhoeddi dy ffyddlondeb
i bob cenhedlaeth,
achos mae dy air yn ddibynadwy,
a'th addewid yn ddiogel.

Genir plentyn
o fewn un genedl
ar gyfer pob cenedl.
Datgelir ein Duw ni,
Mab Dafydd
wedi'i eni yn isel.
Daw cariad i lawr i'r ddaear
yn frenin-was,
yn glwyfadwy.

Canwn byth am dy gariad,
a chyhoeddi dy ffyddlondeb
i bob cenhedlaeth,
achos drwy ras pur
mae ein hiachawdwriaeth yma.

● **Cyffes**
Wrth i ni ddathlu
rhodd cariad
yn y preseb
a chofio
i Iesu Grist ddod
er ein hiachawdwriaeth,
maddau i ni
os yw'n calonnau'n oer
a ffydd ymhell.

Tyn ni nôl at y fam,
Mair, a gariodd y baban
a fyddai'n frenin.
Atgoffa ni
o'i thynerwch,
ei ffyddlondeb
pan ofynnwyd iddi
fod yr un fendigaid.
Drwyddi hi
y cerddai'r dwyfol
ar ein daear.
O! Na allem ymgorffori
y fath ffydd!

● Diolch

Pan ddoi di atom
mewn sibrwd tyner
neu wynt nerthol,
a gofyn yr hyn sy'n swnio'n amhosibl
i feddyliau dynol,
fel y gwnest gyda Mair,
boed i'n hymateb
beidio â bod yn betrusgar,
na hel esgusion,
na rhedeg i ffwrdd,
ond yn adlais yn hytrach
o eiriau hardd
yr ymddiried hwnnw,
'Dyma forwyn yr Arglwydd;
cyflawner dy air ynof fi.'

Am ffyddlondeb Mair
a'i bywyd o wasanaeth
rhown ddiolch i ti, Arglwydd.